

## Ein Byd

### Darlleniad: Deuteronomium 6: 1-9

---

---

Trown atat yn awr, ein Duw, i ddiolch i ti fod llwybr gweddi yn agored inni. Diolchwn i ti am waith dy ddwylo:

‘Pan edrychaf ar y nefoedd, gwaith dy fysedd, y lloer a’r sêr, a roddaist yn eu lle ... O Arglwydd, ein Iôr, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear.’

Dymunwn, yn ystod y munudau hyn o weddi, gydnabod ôl dy ddwylo di yn creu a chynnal y byd. O foelni’r gaeaf, i ddeffroadau’r gwanwyn, ac ysblander a llawnder yr haf, hyd at brydferthwch lliwiau’r hydref, diolchwn i ti, ein Tad, am ein byd. Ond gorfodir ni hefyd, ein Tad, i gydnabod iti ein galw i ofalu am ein byd - y byd a greaist yn ôl dy Air a’th ewyllys - ac i ninnau gefnu ar dy alwad a gwadu’n cyfrifoldeb. Buom yn afradlon ein ffyrdd ac yn anghyfrifol ein stiwardiaeth. Erfyniwn am faddeuant, ein Tad, am y llanast a wnaethom o’th greadigaeth di. Gwelwn ganlyniad ein difaterwch a’n hesgeulustod yn y difa a’r dinistrio sy’n digwydd heddiw yn ein byd. Effeithiodd hynny, nid yn unig ar ein hamgylchedd ni, ond hefyd ar amgylchedd y cenedlaethau i ddod.

Trugarha wrthym, O! nefol Dad, a maddau inni ein balchder am ganiatáu’r fath ddinistrio, a hynny oherwydd elw a rhesymau economaidd. Mewn galar a thristwch cofiwn am y fforestydd a ddymchwelwyd a’r cymoedd a foddwyd; am y treisio a fu ar adnoddau’r ddaear, a hynny er elw dyn. Cofiwn yn ein gweddi am frodorion y gwledydd a orfodwyd i symud o’u cynefin, a hynny yn enw datblygiad; am y tresmasu a fu ar eiddo a’r chwalu ar gymunedau. Gwaeddodd eraill am feddrodau’u tadau ac am gynefin eu plant, ond byddar oeddem i’w cri. Maddau inni, ein Tad, am ein diffyg consýrn, am ein diffyg gofal. Daeth poen a blinder i’n byd oherwydd yr awchu am elw, a phlygwn ninnau ger

dy fron mewn cywilydd am inni adael i'r cyfan ddigwydd dros y blynyddoedd, a ninnau heb ildio dim. Erfyniwn am gyfle newydd i unioni'r cam a wnaed, ac am arweiniad i wneud hynny.

Gwyddom iti alw atat genedl etholedig, a rhoddaist iddi wlad yn llifeirio o laeth a mêl. Canlyniad hynny oedd gosod cyfrifoldeb arni i ufuddhau i ti, drwy gyfamod a wnaethost â hi i ofalu am y wlad. Gwna ninnau'r un mor barod i ofalu am yr hyn a roddwyd i'n gofal ninnau fel cenedl. Deffro ynom yr awydd i ofalu am yr hyn a ddaeth yn etifeddiaeth inni yn dymhorol ac yn ysbrydol, fel y medrwn greu gwlad 'ar dy lun' a thrwy hynny ymarfer o'r newydd ein ffydd fel stiwardiaid cyfrifol a da i ti. Wedi'r cyfan, rydym yn atebol i ti am ein gweinidogaeth fel gofalgwyr ein byd a'n cenedl.

Arwain ni i fod yn deilwng o'th alwad, er mwyn inni ganolbwyntio'n hegri a'n meddyliau ar y gwaith o ofalu am y winllan hon a roddwyd i'n gofal. Nid anghofiwn hanes Naboth a'r winllan a roddwyd i'w ofal ef ...

‘Gwinllan a roddwyd i'm gofal yw Cymru fy ngwlad,  
I'w thraddodi i'm plant  
Ac i blant fy mhlant  
Yn dreftadaeth dragwyddol.’

Cyflwynwn ein treftadaeth ysbrydol i'th sylw, yn enwedig wrth inni gofio'i blinderau, a boed i ninnau fod yn agored i ymateb yn gadarnhaol a'n cyflwyno'n hunain i ofalu am ein byd. Rho inni o'r newydd brofiad o'r Ysbryd Glân i'n cymhwyso ar gyfer y gwaith. Hyn a ofynnwn yn enw Iesu Grist. Amen.

*Geraint Hughes*